Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

**Papur ar gyfer sesiwn y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 25 Medi 2023, ar yr ymchwiliad â ffocws i strategaeth ddrafft tlodi plant Llywodraeth Cymru**

<u>Gwybodaeth gefndirol am Gomisiynydd Plant Cymru</u>

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Wrth arfer eu swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cynnwys pob maes o rymoedd datganoledig y Senedd sy'n effeithio ar hawliau a lles plant.

Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw'r Confensiwn, sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r Confensiwn fel sail i'r holl waith llunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc, ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyladwy' i'r Confensiwn.

<u>Y negeseuon allweddol:</u>

- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei strategaeth ddrafft mewn modd cynhwysfawr. Nid yw'n cyfateb i ddifrifoldeb y sefyllfa mae plant a phobl ifanc Cymru yn ei hwynebu heddiw. Mae diffyg uchelgais i'r strategaeth, ac yn bwysicaf oll mae'n rhaid cael Cynllun Gweithredu a fframwaith monitro cynhwysfawr i gyd-fynd â hi, sy'n gosod targedau a chanlyniadau mesuradwy. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir o gwbl sut bydd y strategaeth ddrafft yn trosi i gamau diriaethol a sut a phryd y byddan nhw'n cael eu cyflawni.

- Mae'r ymarferion ymgysylltu helaeth a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i'w croesawu, ond nid yw hyn wedi'i adlewyrchu'n ddigonol yn y strategaeth ddrafft. Mae diffyg cydberthynas rhwng yr adrannau 'yr hyn rydym wedi'i glywed', sy'n adlewyrchu gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a rhanddeiliaid eraill, a'r blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r strategaeth hefyd nodi sut bydd adborth yn cael ei roi i randdeiliaid ar gynnydd camau gweithredu yn erbyn y pwyntiau maen nhw wedi'u codi.

- Dylid fframio'r strategaeth ddiwygiedig ar sail pum egwyddor Dull Hawliau Plant, a dylid gallu dangos yn gynhwysfawr sut mae'n glynu at bob un. Byddai hyn yn cyfrannu at sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswydd sylw dyladwy o dan y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (2011). Nid yw'r strategaeth bresennol yn dangos hyn yn ddigonol.

**Adroddiad Comisiynydd Plant ac argymhellion perthnasol o 2019**

Yn 2019, cyhoeddodd fy swyddfa adroddiad *Siarter ar gyfer Newid*[1], a wnaeth gyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Roedd un o'r argymhellion yn ymwneud â chofrestru teuluoedd cymwys yn awtomatig i brydau ysgol am ddim a'r grant hanfodion ysgol (Grant Amddifadedd Disgyblion - Mynediad gynt). Dim ond un enghraifft yw hyn; dylid hefyd cynnwys y cynllun lleihau treth gyngor ac eraill mewn systemau budd-daliadau mwy syml yng Nghymru, sy'n lleihau straen ac ymdrech i'r ymgeiswyr. Dylai teuluoedd allu cael mynediad at yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo mewn ffordd symlach. Ni ddylid gorfod dibynnu ar gynghorwyr hynod wybodus i sicrhau bod teuluoedd yn llenwi'r holl wahanol ffurflenni sy'n ofynnol er mwyn cael y cymorth mae ganddyn nhw hawl iddo. Bydd symleiddio trefniadau i roi llwybr haws i deuluoedd drwy'r broses/prosesau yn arwain at newid diriaethol iddynt, yr hyn sy'n aml yn cael ei ddisgrifio gan y Llywodraeth fel rhoi arian yn uniongyrchol ym mhocedi pobl, ac mae'n rhaid i hyn fod yn nod allweddol i unrhyw strategaeth wrthdlodi.

Mae'r strategaeth ddrafft yn cyflwyno'r nod o gyflawni system budd-daliadau gydlynol a thosturiol yng Nghymru, a bod y Llywodraeth yn dymuno cefnogi pobl i gael mynediad at fudd-daliadau lles y Deyrnas Unedig y mae ganddynt hawl iddynt. Serch hynny, nid oes digon o fanylion yn y strategaeth o ran pa mor bell gall system fudd-daliadau Cymru fynd o ran cofrestru awtomatig neu basbortio budd-daliadau, a cheisio tegwch ar draws awdurdodau lleol.

Roedd tlodi bwyd yn bwnc arall a godwyd yn adroddiad 2019. Mae Amcan 1 y strategaeth ddrafft yn datgan y 'bydd gwersi a ddysgwyd o gyflwyno ein cynnig cyffredinol mewn ysgolion cynradd yn llywio newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim'. Roedd adolygu meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn argymhelliad allweddol yn ein hadroddiad. Serch hynny, nid yw'n glir sut y byddai'r cynnig cyffredinol (a ddaeth i'r amlwg ar ôl i ni wneud ein hargymhelliad gwreiddiol) yn hysbysu ystyriaeth dros feini prawf cymhwysedd, gan fod y cynnig cyffredinol, wrth gwrs, yn golygu nad oes meini prawf cymhwysedd. Dylai fod meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim mewn

[1] Comisiynydd Plant Cymru (2019) *Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn Plant yng Nghymru rhag effaith tlodi*. Ar gael drwy: https://www.complantcymru.org.uk/publication/siarter-ar-gyfer-newid-diogelu-plant-cymru-rhag-effaith-tlodi/

[2] Archwilio Cymru (2022) *Amser am Newid – Tlodi yng Nghymru*. Ar gael drwy: https://www.audit.wales/cy/publication/amser-am-newid-tlodi-yng-nghymru

ysgolion uwchradd yn cael eu hadolygu nawr, os nad yw'n fwriad cyflwyno prydau ysgol cyffredinol am ddim i bob dysgwr mewn ysgolion uwchradd ar unwaith.

O ran prydau ysgol am ddim i bawb, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau eu bod yn cadw gwybodaeth am gymhwysedd blaenorol gan fod cymhwysedd am brydau ysgol am ddim hefyd yn rhoi hawl i daliadau a budd-daliadau lles drwy awdurdodau lleol. Heb y ffocws hwn, gallai darpariaeth prydau ysgol am ddim i bawb effeithio ar gymhwysedd teuluoedd ar gyfer ffynonellau incwm eraill, fel canlyniad anfwriadol. Yn hanesyddol, mae meini prawf cymhwysedd wedi cael effaith uniongyrchol ar gyllidebau ysgolion. Mae angen proses neu feini prawf i'w disodli, er mwyn sicrhau bod gan ysgolion a oedd â chyfran uchel o'u poblogaeth yn gymwys am brydau ysgol am ddim ddigon o gyllid yn dal i fod i gefnogi dysgwyr a chreu darpariaeth a chyfle cyfartal iddyn nhw.

Nid yw'n glir pam nad yw'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol 'Bwyd a Hwyl' wedi'i chynnwys yn adrannau perthnasol y Strategaeth. A fydd y Rhaglen yn parhau i gael ei hariannu, ac os yw wedi'i dylunio i ddarparu cyflenwad sy'n cyfateb rhywfaint â'r ddarpariaeth cinio ysgol am ddim flaenorol dros wyliau'r ysgol, pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella'r cyflenwad hwn?

Mae materion yn ymwneud â thlodi plant hefyd yn creu stigma mewn ysgolion, fel gwrthod prydau ysgol i blant y mae eu cardiau cinio mewn dyled. Cwrddais yn ddiweddar â grŵp o bobl ifanc yn y gogledd a soniodd wrtha i am brofiadau eu cyfoedion, a oedd wedi cael clywed, o flaen plant eraill, na allen nhw gael cinio am fod eu cardiau mewn dyled. Ni ddylai'r un plentyn brofi'r sefyllfa hon, a dylid rhoi bwyd iddynt er bod eu cerdyn mewn dyled, ond dylai fod yn egwyddor sydd wedi'i gwreiddio ym mhob ysgol nad yw sgyrsiau am ddyledion yn cael eu cynnal gyda'r plant eu hunain, ond gyda'u rhieni neu ofalwyr yn unig. Mae'r Grŵp Gweithredu Tlodi Plant wedi creu canllaw i ysgolion[2] ar gefnogi teuluoedd mewn cyfnod o galedi ariannol y gellid ei ddefnyddio fel model ar gyfer sut gall Llywodraeth Cymru weithredu ar y mater hwn.

## Adolygiad Tlodi Plant Llywodraeth Cymru

Cynhaliodd y Llywodraeth Adolygiad Tlodi Plant yn 2019/20. Cyflwynwyd canfyddiadau'r adolygiad i rai rhanddeiliaid gan gynnwys fy swyddfa i, ond ni chafodd y canfyddiadau eu cyhoeddi[3], gan gyfeirio at newid yng nghyd-destun y pandemig fel rheswm dros hyn.

[2] Grŵp Gweithredu Tlodi Plant (2022) *Supporting families in times of financial hardship: a guide for schools*. Ar gael trwy: https://cpag.org.uk/policy-and-campaigns/briefing/supporting-families-times-financial-hardship-guide-schools
[3] Adroddiad terfynol Comisiynydd Plant Cymru 2019 i 2020: Ymateb gan Lywodraeth Cymru

Roedd y canfyddiadau'n cynnwys y ffaith nad oedd pawb yn cael mynediad at eu hawliau llawn o ran budd-daliadau, grantiau a chymorth ariannol arall; roedd ymwybyddiaeth isel o hawliau yn gyffredinol, a oedd wedi'i waethygu gan rwystrau ieithyddol a llythrennedd; roedd rhaglenni sy'n cynnig cymorth wedi'u cyfyngu yn ôl cod post/ardal, ac felly'n eithrio rhai pobl oedd mewn angen; ac roedd hyd yn oed cynlluniau cyffredinol ddim yn cyrraedd y rhai oedd eu hangen fwyaf.

Heriodd fy swyddfa y penderfyniad i beidio â chyhoeddi canfyddiadau'r Adolygiad, drwy ysgrifennu at y Prif Weinidog i bwysleisio pwysigrwydd tryloywder eu canfyddiadau, ac atebolrwydd i blant a theuluoedd. Nododd ymateb y Prif Weinidog ym mis Awst 2020 nad oedd y canfyddiadau'n adlewyrchu'r tirlun economaidd presennol oherwydd y pandemig. Nododd yr angen i gymryd camau yn yr yma a'r nawr i gynyddu incwm teuluoedd, o ystyried pwysau ariannol dwys y pandemig ar y pryd.

Nid oes cynllun gweithredu i liniaru neu fynd i'r afael â thlodi plant wedi'i greu ers adolygiad y Llywodraeth.

**Gwaith costau byw**

Rydw i wedi bod yn aelod sylwedydd o'r Grŵp Arbenigol ar yr Argyfwng Costau Byw, sydd â'r dasg o gynghori Is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw ar: effaith yr Argyfwng Costau Byw ar bobl Cymru; a'r camau y dylid eu cymryd i liniaru effaith yr argyfwng yng Nghymru. Cynhyrchodd y grŵp hwn adroddiad ar gyfer yr is-bwyllgor hwnnw. Roedd argymhellion y Grŵp yn cynnwys camau ymarferol y gallai Llywodraeth Cymru ymrwymo iddynt, a fyddai'n helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng, ond hefyd ag effeithiau mwy hirdymor tlodi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Llywodraeth Cymru i gyflwyno Taliad Costau Byw Plant ar sail rhandaliadau ar gyfer cartrefi incwm isel â phlant.*
- *Llywodraeth Cymru i gyflwyno Taliad Costau Byw Pobl Anabl ar sail rhandaliadau ar gyfer cartrefi ag unigolyn anabl.*
- *Llywodraeth Cymru i ehangu darpariaeth prydau ysgol am ddim i ddisgyblion Blwyddyn 7-11 ar gyfer cartrefi sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, heb gap ar enillion.*
- *Llywodraeth Cymru i ymestyn cyrhaeddiad y rhaglen 'Bwyd a Hwyl' fel ei bod yn blaenoriaethu teuluoedd incwm isel ac yn cael ei chynnal ar draws y 22 awdurdod lleol yn ystod pob gwyliau ysgol yn yr hydref, gaeaf a thu hwnt.*

- *Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i beilota teithio am ddim ar fws i bobl ifanc, drwy gyflwyno teithio am ddim i bobl o dan 16 oed yn 2024/25 am gyfnod prawf.*

Er fy mod yn cydnabod i'r argymhellion gael eu gwneud ar ôl i'r strategaeth ddrafft gael ei chyhoeddi, nid oes dim un ohonynt wedi'u cynnwys fel rhan o'r amcanion yn y strategaeth ddrafft hon.

O ran gwaith ieuenctid, dylai Llywodraeth Cymru glustnodi cyllid i awdurdodau lleol i sicrhau bod gwaith ieuenctid yn cael ei drin fel gwasanaeth hanfodol, yn hytrach na gwasanaeth a allai ddioddef yn gynnar mewn penderfyniadau ynghylch torri cyllidebau yn erbyn blaenoriaethau cystadleuol sy'n aml yn statudol. Bydd budd gwasanaethau ieuenctid yn cael sgil-effaith gadarnhaol ar iechyd ac ymddygiad iach er enghraifft, felly gellid ei ystyried fel maes 'buddsoddi i arbed'. Amlygwyd diffyg buddsoddiad mewn gwasanaethau ieuenctid gan weithwyr proffesiynol a holwyd gennym ar gyfer arolwg *Gobeithion i Gymru*[4].

**Y strategaeth ddrafft**

Dylai'r strategaeth gynnwys uchelgeisiau clir a fydd yn cael eu gosod yn erbyn targedau ac amserlenni. Dylai fod yn fwy uchelgeisiol ac yn canolbwyntio ar y dyfodol, gyda chamau mesuradwy i ddangos sut bydd yr uchelgeisiau hyn yn cael eu gwireddu.

Mae fy swyddfa wedi bod yn galw am gynllun cyflawni tlodi plant gyda chamau mesuradwy ers tro, yn ein hadroddiad yn 2019, ac fel argymhelliad mewn sawl Adroddiad Blynyddol. Roedd galwadau tebyg wedi'u cynnwys mewn adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru[2], ac mewn adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP)[5].

Yn eu hadroddiad, mae'r WCPP yn datgan y canlynol;

> *Mae strategaeth wrthdlodi dda yn gwneud gwahaniaeth mawr. Er mwyn i strategaeth fod yn fwy na rhestr o fentrau polisi perthnasol, mae angen canolbwyntio ar y modd y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y rhai sy'n gallu gweithredu yn gwneud hynny.*

---

[4] Comisiynydd Plant Cymru (2023) *Gobeithion i Gymru - Canfyddiadau*. Ar gael drwy: https://www.complantcymru.org.uk/ein-gwaith/gobeithion-i-gymru/gobeithion-i-gymru-canfyddiadau/

[5] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2022) *Tlodi ac allgáu cymdeithasol: ffordd ymlaen. Ar gael drwy:* https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2022/09/Tlodi-ac-allg%C3%A1u-cymdeithasol-Ffordd-ymlaen.pdf

Serch hynny, *mae'r* strategaeth ddrafft bresennol, mewn sawl man, yn darllen fel dim ond rhestr o fentrau polisi perthnasol, gan nad oes Cynllun Gweithredu a fframwaith monitro gysylltiedig a fyddai'n manylu ar sut i weithredu a mesur effeithiolrwydd y strategaeth honno yn effeithiol. Dylai'r fframwaith monitro arfaethedig, a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig, fod wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

Mewn mannau amrywiol drwy gydol y strategaeth ddrafft, mae'n datgan bod polisi neu fenter yn bodoli, heb gynnwys manylion ynghylch sut mae'n cysylltu â'r Amcan neu Flaenoriaeth berthnasol.

**Gwaith a gofal plant**

Mae Amcan 2 yn canolbwyntio ar addysg, a gwaith teg gydag amodau da. Serch hynny, ni fydd cael teuluoedd i mewn i waith yn codi teuluoedd o dlodi wrth ei hun. Mae 26% o blant o gartrefi sy'n gweithio yn byw mewn tlodi, ac rydyn ni'n gwybod hyd yn oed mewn cartrefi lle mae pob oedolyn yn gweithio bod y tebygolrwydd o fyw mewn tlodi yn dal i fod yn 13%[6]. Wrth gwrs, mae teuluoedd â phlant yn fwy tebygol o fod yn gweithio llai o oriau ac yn talu am ofal plant.

Mae'r Amcan yn gywir wrth dynnu sylw at yr angen am ofal plant hygyrch a fforddiadwy. Rydyn ni'n croesawu'r estyniadau diweddar i'r cynnig gofal plant i deuluoedd mewn addysg neu hyfforddiant. Serch hynny, dylai fod gofal plant am ddim ar gael i *bob* teulu, fel gwasanaeth sydd o fudd uniongyrchol i hawliau plant ac sy'n cefnogi datblygiad plentyn ar faes chwarae teg, waeth beth yw statws cyflogaeth eu rhieni. Unwaith eto, mae'r strategaeth yn methu â darparu unrhyw gamau ymarferol y tu hwnt i weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Dylai'r strategaeth nodi pa garfanau o deuluoedd fydd wedi'u cynnwys yn y cynnig gofal plant dros amser, a phryd mae'r Llywodraeth yn disgwyl i hyn ddigwydd.

**Cymunedau a thai**

Ni ddylai'r un plentyn yng Nghymru fyw mewn amodau anaddas, anniogel neu ansicr yn eu cartref a'u cymuned, a dylai Llywodraeth Cymru ddatgan hyn yn glir gyda chamau sy'n nodi sut bydd hyn yn cael ei gyflawni.

Mae rhan o'r flaenoriaeth yn nodi amcan Llywodraeth Cymru i...

---

[6] Llywodraeth Cymru (2023) *Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022*. Ar gael drwy: https://www.llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebrill-2021-i-fawrth-2022

*fynd ati, ar y cyd â phartneriaid, i gynnig mwy o gyfleoedd chwarae, chwaraeon ac ieuenctid cymunedol i blant a phobl ifanc yn y gymuned, ynghyd â gweithgareddau cost isel i deuluoedd i gefnogi iechyd a llesiant*

Croesawaf fod hyn yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, ond unwaith eto, mae'n rhaid gosod camau gweithredu yn erbyn y blaenoriaethau hyn. Roedd pryderon ynghylch diffyg cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol, hamdden a chwarae ar gyfer plant yn eu cymunedau yn bryder allweddol ymhlith rhieni a gofalwyr yng nghanlyniadau arolwg *Gobeithion i Gymru*[7]*.* Roedd gwella darpariaeth a mynediad at gyfleoedd chwarae a hamdden yn flaenoriaeth gan blant a phobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg. Dywedodd plant rhwng 7 ac 11 oed wrthon ni yr hoffen nhw weld "mwy o glybiau a gweithgareddau corfforol am ddim i bob plentyn", "mwy o barciau diogel i ni chwarae ynddyn nhw", yn ogystal â chefnogi "llefydd lle mae plant yn gallu cwrdd a gwneud ffrindiau newydd".

Soniodd pobl ifanc rhwng 12 a 18 oed am bwysigrwydd darparu gweithgareddau yn y gymuned leol, a darparu 'cludiant am ddim' i'w helpu i gael mynediad at gyfleoedd.

Pa gamau penodol fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wireddu'r uchelgais o ddarparu mwy o gynigion yn y gymuned a sut bydd awdurdodau lleol yn cael eu dal i gyfrif o ran darparu'r cynigion hyn?

**Atebolrwydd**

Er y bydd rolau ar draws y Llywodraeth yn darparu'r strategaeth, dylai'r atebolrwydd yn y pen draw fod gyda Gweinidog unigol sy'n gallu darparu gyriant ac arweinyddiaeth ar draws y llywodraeth. Mae adroddiad WCPP yn argymell bod angen i strategaeth wrthdlodi dda osod cyfrifoldeb cyffredinol ar un uwch weinidog[8].
Nid yw'r drafft presennol yn glir ynghylch pwy fydd yn gyfrifol yn y pen draw.

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru adrodd ar gynnydd yn erbyn y strategaeth bob tair blynedd. Rwy'n siomedig nad yw'r strategaeth wedi'i fframio ar sail camau gweithredu tymor byr, tymor canolig a thymor hir gydag amserlenni. Byddwn wedi disgwyl i Lywodraeth Cymru

[7] Ibid.
[8] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2022) *Beth sy'n gwneud strategaeth gwrthdlodi yn effeithiol?* Ar gael drwy: https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2022/09/WCPP-What-makes-an-anti-poverty-strategy-effective-September-2022-Welsh-final.pdf

nodi beth hoffen nhw fod wedi'i gyflawni erbyn bod gofyn iddynt adrodd ar gynnydd nesaf, yn 2025. Mae'n bosib mai'r dyhead ar gyfer y gwaith adrodd hwnnw yw fyddai camau tymor byr a thymor canolig wedi'u cwblhau, a bod Cynllun Gweithredu a fframwaith monitro cadarn ar waith y gellir cyflawni yn eu herbyn.

Rwy'n cydnabod bod llawer o'r ysgogiadau sy'n effeithio ar dlodi plant wedi'u lleoli yn San Steffan, ond ni ddylai hyn amharu ar uchelgais Llywodraeth Cymru i wneud yr hyn mae'n gallu ei wneud gyda'r pwerau sydd ganddi. Lle mae'r ysgogiadau yn rhywle arall, mae cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i bwyso ar Lywodraethau'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol, waeth beth yw eu lliw, i wrthdroi'r 'llanw' o lunio polisïau sydd wedi cael effaith mor ddinistriol ar y plant mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Mae'r strategaeth tlodi plant flaenorol (2015) yn rhestru sawl mesur y gellir gwirio cynnydd yn eu herbyn. Rwy'n credu bod yn rhaid i'r strategaeth ddrafft hon wneud yr un peth. Nid yw diffyg cynnydd yn erbyn y mesurau hynny yn rheswm i beidio â mesur. Hyd yn oed lle nad oes gwelliant gwych yn yr ystadegau, gall naratif fynd i'r afael â hyn a sut mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwahaniaethau mesuradwy, yng nghyd-destun polisïau Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gwaethygu tlodi plant ymhellach.

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i beilota trafnidiaeth am ddim i bawb o dan 18 oed, a dylai'r amcan a'r flaenoriaeth gyfeirio'n benodol at sut bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â diffyg trafnidiaeth fforddiadwy er mwyn cael mynediad at gyfleoedd sy'n gallu lliniaru effaith tlodi.

Roedd fersiynau blaenorol o'r strategaeth tlodi plant yn cynnwys mwy o naratif ar fesur ac atebolrwydd, yn ogystal â mesuriadau penodol. Er enghraifft, roedd strategaeth tlodi plant 2015[9] yn nodi amcanion i 'leihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd heb waith';

'cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel'; a 'lleihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant.' Yna roedd

[9] Llywodraeth Cymru (2015) *Strategaeth Tlodi Plant Cymru*. Ar gael drwy: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/strategaeth-tlodi-plant-i-gymru-adroddiad.pdf

[18] Llywodraeth Cymru (2016) *Strategaeth Tlodi Plant: asesu cynnydd 2016*. Ar gael drwy: https://senedd.cymru/laid%20documents/gen-ld10867/gen-ld10867-w.pdf

adroddiadau yn 2016[18], 2019[10] a 2022[11] yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y rheini ac amcanion eraill. Nid yw'n glir pam nad oes gan y strategaeth ddrafft gamau mesuradwy tebyg.

Mae sawl enghraifft o Gynlluniau Gweithredu gan Lywodraeth Cymru y gallai eu defnyddio fel enghreifftiau i siapio strategaeth ddiwygiedig gyda chynllun gweithredu cysylltiedig. Dyma rai enghreifftiau:

- Mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru[12] yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o gamau gweithredu gyda gweithgareddau penodol, canlyniadau, llinellau amser a pherchnogion camau wedi'u gosod yn eu herbyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi diweddariadau cynnydd rheolaidd yn erbyn y camau gweithredu hyn, a chyhoeddwyd y cyntaf[13] ymhen ychydig fisoedd o lansio'r Cynllun Gweithredu. Mae'r Cynllun hefyd yn cynhyrchu bwletinau rheolaidd y mae modd i randdeiliaid â diddordeb gofrestru iddynt. Rwy'n argymell yn gryf y dylid defnyddio'r dull hwn ar gyfer cynllun gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Tlodi Plant.
- Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol[14] yn gosod rhestr gynhwysfawr o gamau gweithredu yn erbyn amserlenni, gan nodi'r mis y bydd y cam wedi'i gyflawni. Mae diweddariad blynyddol yn cael ei gyhoeddi y mis hwn.
- Mae Cynllun Gweithredu Gweithlu Cenedlaethol y GIG[15] yn nodi camau gweithredu penodol a mesuradwy, sy'n nodi'r mis y bydd pob cam wedi'i gyflawni.

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i Gynllun Gweithredu a fframwaith monitro cysylltiedig sy'n rhoi'r un lefel o atebolrwydd â'r enghreifftiau uchod.

---

[10] Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth Tlodi Plant Cymru: asesu cynnydd 2019*. Ar gael drwy: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/plant-tlodi-strategaeth-2019-adroddiad-cynnydd.pdf

[11] Llywodraeth Cymru (2022) *Strategaeth Tlodi Plant: adroddiad cynnydd 2022*. Ar gael drwy: https://www.llyw.cymru/strategaeth-tlodi-plant-adroddiad-cynnydd-2022-html

[12] Llywodraeth Cymru (2022) *Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru*. Ar gael drwy: https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru-diweddariad-ar-gynnydd

[13] Llywodraeth Cymru (2023) Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru: *diweddariad ar gynnydd*. Ar gael drwy: https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru-diweddariad-ar-gynnydd

[14] Llywodraeth Cymru (2022) *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol*. Ar gael drwy: https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol

[15] Llywodraeth Cymru (2023) *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu: Mynd i'r Afael â Heriau Gweithlu GIG Cymru*. Ar gael drwy: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-01/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-ar-gyfer-y-gweithlu.pdf

**Safbwyntiau plant a theuluoedd**

Mae'r fethodoleg ar gyfer yr ymarfer ymgysylltu a gyflawnwyd i lywio'r strategaeth hon wedi'i gosod yn y cyflwyniad i'r strategaeth ddrafft. Rwy'n croesawu'r sesiynau ymgysylltu helaeth a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag eraill. Rwy'n deall y bydd crynodeb llawn o'r gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â fersiwn derfynol y strategaeth, ond byddai crynodeb mwy manwl o'r gwaith ymgysylltu hwnnw wedi bod yn defnyddiol fel dogfen ategol i'r strategaeth ddrafft, i hysbysu ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Yn ei ffurf bresennol, nid yw'n ymddangos bod yr adrannau 'yr hyn rydym wedi'i glywed' yn cysylltu â'u blaenoriaethau ym mhob adran bob amser. Dylai'r cysylltiadau rhwng yr hyn a godwyd a beth yw blaenoriaethau'r llywodraeth fod yn glir.

Nid yw'n glir o gwbl sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro, a dyma'r broblem fwyaf gyda'r strategaeth hon.

Pan drafodon ni'r strategaeth mewn ymgynghoriad gydag aelodau o'n panel cynghori ifanc, dywedon nhw "does dim digon ynddo am sut byddan nhw'n cyfathrebu'n ôl â phlant a phobl ifanc ar gynnydd", "Dydyn nhw ddim yn gamau clir – dydy e ddim yn swnio fel newidiadau mawr – teimlo y byddai'r trywydd yr un fath [ystadegau ddim yn gwella] os nad ydyn nhw'n gamau gweithredu go iawn". Pan ofynnwyd iddynt a oedden nhw'n teimlo y bydd y strategaeth yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, dywedodd un person ifanc ei fod yn... "...dibynnu ar beth sy'n digwydd wedyn – mae'n dibynnu beth yw'r camau gweithredu".

Yn ei Sylwadau Terfynol[16] i lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023, gwnaeth Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gynnwys argymhelliad y dylai llywodraethau:

> *Datblygu neu gryfhau polisïau presennol, gyda thargedau clir, dangosyddion mesuradwy a mecanweithiau monitro ac atebolrwydd cadarn, er mwyn rhoi diwedd ar dlodi plant a sicrhau bod gan bob plentyn safon byw ddigonol.*

Mae'r strategaeth ddrafft yn crybwyll yn gryno y bydd Llywodraeth Cymru yn 'ceisio cyngor ymchwil annibynnol ar ddangosyddion tlodi cenedlaethol addas, argaeledd data a fframwaith

---

[16] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2023) *Sylwadau terfynol ar chweched a seithfed adroddiad cyfnodol cyfunol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon*. Ar gael drwy: https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%2FC%2FGBR%2FCO%2F6-7&Lang=en

i fonitro a dangos atebolrwydd tryloyw wrth adrodd ar ein cynnydd tuag at drechu tlodi a gwaith i gynnwys pobl â phrofiad bywyd er mwyn dweud wrthym a ydym yn cyflawni'.

Dyma sylwadau pellach gan fy mhanel ar y strategaeth ac a ydyn nhw'n teimlo bod bylchau:

*Eithaf amwys gyda phob un o'u pwyntiau.*

*Meddwl bod y nodau'n dda, ond dylai fod yn canolbwyntio ar fwyd, addysg, gofal iechyd, dillad. Rhowch bwysau ar archfarchnadoedd i gynorthwyo teuluoedd sydd ar Gredyd Cynhwysol â chostau bwyd oherwydd bydd prisiau'n is. Gwnaeth archfarchnadoedd elw uchel yn ystod covid.*

*Gallen nhw edrych ar fanciau esgidiau, neu gotiau, neu wisg ysgol, yn ogystal â banciau bwyd. Heb yr arian yna i wario ar bethau. Gallai archfarchnadoedd, cynghorau ac ati hysbysebu, a gallai fod yna fanc gwisg ysgol mewn banciau bwyd.*

*Gallai rheolau gwisg ysgol fod yn llai llym. Byddai'n helpu teuluoedd.*

*Mae'n dda dweud 'dechrau'n gynnar i sicrhau cymorth o'r dechrau'.*

*Canolbwyntiwch ar iechyd ac addysg i leihau problemau.*

Gofynnwyd iddyn nhw a oedd y strategaeth yn glir ac yn hawdd ei deall. Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt fod y strategaeth yn hawdd ei deall, ond gofynnodd aelodau ein panel sut bydd y strategaeth yn cael ei chyflawni mewn gwirionedd. Gofynnon ni a oedden nhw'n teimlo y bydd y strategaeth yn creu gwahaniaeth cadarnhaol. Dyma rai o'u hymatebion:

> *Mae'n gwneud rhai pwyntiau rhesymol, ond mae llawer ohoni'n teimlo fel uchelgais amhenodol, mae diffyg camau ymarferol clir neu is-nodau diffiniedig.*
>
> *Dw i'n credu bod angen i'r nodau gael eu dangos fel gweithredoedd, sut mae'r llywodraeth yn mynd i weithio ar sicrhau bod plant yn cael y "dechrau gorau mewn bywyd". Dydy'r datganiadau ddim yn disgrifio unrhyw gamau a allai gael eu cymryd yn y dyfodol.*

Gwnaeth fy mhanel sylwadau hefyd nad oes "digon yno am sut byddan nhw'n cyfathrebu'n ôl wrth blant a phobl ifanc am gynnydd". Yn ogystal ag atebolrwydd ar ffurf monitro canlyniadau

mesuradwy, mae'n bwysig bod atebolrwydd hefyd yn cael ei gyflawni ar ffurf adborth i randdeiliaid sydd wedi cyfrannu at y broses hon. Rwy'n gobeithio y bydd cyhoeddi'r ymarfer ymgysylltu llawn yn darparu rhan o hyn, ond mae'n hanfodol bod y gwaith adrodd rheolaidd sy'n ofynnol bob tair mlynedd yn trafod yr adrannau 'Yr hyn rydym wedi'i glywed' o'r strategaeth hon, sy'n deillio o'r ymarferion ymgysylltu, ac yn cyflwyno manylion penodol ynghylch pa gamau sydd wedi digwydd a sut maen nhw wedi datblygu.

Yn ein harolwg *Gobeithion i Gymru*[17], a gynhaliwyd yn hydref 2022, o blith dros 8,000 o blant a phobl ifanc, ac oddeutu 2,000 o rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, tlodi a chostau byw oedd y themâu amlycaf.

Ymhlith yr ymatebwyr iau 7-11 oed:

- Mae bron i dwy ran o dair (61.1%) o blant yn poeni a oes gan eu teulu ddigon o arian;
- Mae bron i hanner (44.8%) y plant yn poeni am fod â digon i'w fwyta.

Ymhlith yr ymatebwyr hŷn 12-18 oed:

- Mae dros hanner (51.5%) y bobl ifanc a holwyd rhwng 12 a 18 oed yn poeni a oes gan eu teulu ddigon o arian.
- Mae tua chwarter (24.9%) yn poeni am fod â rhywle i fyw a bod â digon i'w fwyta (25.8%).

Mae'r ffaith bod cymaint o blant yn poeni a oes digon o arian gan eu teulu, a oes ganddyn nhw rywle i fyw a digon i'w fwyta, yn dorcalonnus. Dydw i ddim credu bod y strategaeth hon yn dangos bod gan Lywodraeth Cymru gynllun gweithredu manwl a allai roi mwy o obaith i blant, un y gellir ei mesur, ac y gall y cyhoedd ddal y llywodraeth y gyfrif ar ei sail.

**Hawliau Plant yn y strategaeth**

Mae'r cyflwyniad yn tynnu sylw at CCUHP wrth drafod y sail dystiolaeth mewn perthynas â chasglu safbwyntiau plant a phobl ifanc. Serch hynny, dylai'r ddyletswydd sylw dyladwy o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r

Confensiwn, weithredu fel *sbardun* ar gyfer brwydro'r profiad o fyw mewn tlodi plant fel achos enbyd o dorri hawliau plant. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i fynd i'r afael â thlodi

[17] Comisiynydd Plant Cymru (2023) *Gobeithion i Gymru - Canfyddiadau*. Ar gael drwy: https://www.complantcymru.org.uk/ein-gwaith/gobeithion-i-gymru/gobeithion-i-gymru-canfyddiadau/

plant er mwyn dangos sylw dyladwy i hawliau plant yn unol â'u dyletswydd, a dylai hyn fod yn glir. Dylai pob amcan gysylltu ag erthyglau penodol y CCUHP, a sut mae'r strategaeth yn cefnogi'r hawl honno.

Rwy'n falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig Cyffredinol. Mae'r asesiad yn cydnabod bod gwahanol grwpiau o blant yn fwy tebygol o brofi tlodi, ac yn gosod sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ymgysylltu â'r grwpiau hynny. Mae hyn i'w groesawu. Mae hefyd i'w groesawu bod yr Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant yn cyflwyno erthyglau unigol ac yn rhoi rhywfaint o naratif o'r erthyglau hynny.

Serch hynny, er ei fod yn rhoi manylion yr erthyglau eu hunain, nid yw'n rhoi enghreifftiau penodol o sut bydd y strategaeth *yn mynd ati i wella* pob un o'r hawliau hynny. Rwy'n credu y byddai hyn wedi bod yn ymarfer syml i'w gyflawni ac rwy'n siomedig nad yw hyn wedi'i nodi. Fel a adlewyrchir yng ngweddill yr ymateb hwn, mae diffygion sylweddol yn fersiwn bresennol y strategaeth, a dylai dadansoddiad mwy trylwyr drwy gwblhau'r Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant fod wedi amlygu'r manylion coll a'r camau lliniarol sydd eu hangen i amddiffyn a chynnal hawliau pob plentyn.